

WE ARE  
MACMILLAN.  
CANCER SUPPORT

'RO'N I'N GORFOD MYND  
I'R TŶ BACH RHYW  
DAIR NEU BEDAIR  
GWAITH YR AWR,  
FELLY PENDERFYNAIS  
FYND I WELD Y MEDDYG.'

John



**Canser y prostad yw'r cancer mwyaf cyffredin ymysg dynion. Mae dros 41,700 o ddynion yn cael diagnosis yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Rydych chi mewn mwy o risg os ydych chi dros 50 oed, os ydych chi o dras Affricanaidd neu Affricanaidd-Caribiaidd, neu os yw eich tad neu frawd wedi cael cancer y prostad.**

Gallai gwybod pa newidiadau i gadw golwg arnynt a phryd i fynd i weld meddyg wneud gwahaniaeth mawr. Peidiwch â mynd i boeni os yw'r symptomau hyn gennych - ewch i weld rhywun.

Ewch i weld eich meddyg os ydych chi profi unrhyw rai o'r symptomau hyn:

- Anhawster wrth geisio dechrau gwneud dŵr.
- Llif gwan wrth wneud dŵr.
- Angen gwneud dŵr ar frys.
- Angen gwneud dŵr yn aml, yn enwedig yn y nos.

Serch hynny, nid yw cael un neu ragor o'r symptomau hyn fel arfer yn golygu bod cancer y prostad arnoch – yn aml, cânt eu hachosi gan bethau eraill.

Ond os oes gennych symptomau, peidiwch â'u hanwybyddu – ewch i weld eich meddyg. Os oes gennych ganser, gorau po gyntaf y caiff ei ganfod.

**Dydych chi ddim yn gwastraffu amser eich meddyg os ydych chi'n gofyn iddo archwilio'ch symptomau.**

**Y cynharaf y canfyddir cancer y prostad, y mwyaf tebygol y bydd y driniaeth yn llwyddiannus.**

Os oes angen cefnogaeth arnoch neu efallai sgwrs â rhywun, ffoniwch Macmillan am ddim ar **0808 808 00 00** neu ewch i **macmillan.org.uk**